

Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â datblygu perthynas gyda plant, pobl ifanc ac eraill sy'n defnyddio'r lleoliad gwaith chwarae.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. gweithio ac ymwneud gyda phlant a phobl ifanc
2. gweithio ac ymwneud gyda phobl eraill

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yng nghyd-destun gwaith chwarae gyda'r prif fwriad o ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc y medran nhw eu dewis o'u gwirfodd a'u cymhelliad eu hunain. Mae'r safon ar gyfer staff nad ydyn nhw'n llwyr gyfrifol am y lleoliad chwarae ond sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategol i'r ddogfen Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu. **

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Gweithio ac ymuned gyda phlant a phobl ifanc

1. ymateb i gwestiynau, syniadau ac argymhellion plant a phobl ifanc
2. helpu plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau drostyn nhw eu hunain
3. helpu plant a phobl ifanc i sefydlu a chynnal perthynas yn y lleolid gwaith chwarae
4. helpu pob plentyn a pherson ifanc i gyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd
5. cyfleu i blant a phobl ifanc fod pawb yn wahanol ac o bosib yn gweld pethau mewn ffordd wahanol iddyn nhw
6. helpu plant a phobl ifanc i gytuno ynglŷn â sut maen nhw'n ymwneud â phobl eraill
7. cefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu newidiadau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu hymddygiad a'u perthynas.
8. cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi eu heffeithio gan ymddygiad plant a phobl ifanc eraill
9. annog a chefnogi plant â phobl ifanc i ymdrin eu hunain â gwrthdaro

Gweithio ac ymwneud ag eraill

10. ceisio sefydlu perthynas weithio gydag **eraill***, o fewn ffiniau eich swyddogaeth
11. cyfnewid gwybodaeth gydag **eraill** mewn ffyrdd sy'n cwrdd â'u hanghenion
12. darparu **gwybodaeth** i bobl **eraill** yn unol â pholisïau a threfniadau'ch mudiad
13. trosglwyddo **gwybodaeth** ynglŷn â phobl neu fudiadau eraill yn unol â pholisïau a threfniadau'ch mudiad
14. trafod penderfyniadau a gweithgareddau gyda phobl a mudiadau **eraill** ac ystyried eu sylwadau
15. adnabod ac ymateb i swyddogaethau, cyfrifoldebau, diddordebau a phryderon pobl **eraill**
16. ymateb i sefyllfaoedd, anghytundeb, neu gwynion gan **eraill** yn unol â pholisïau a threfniadau'ch mudiad **amserlen waith**
17. manteisio ar gyfleoedd i annog datblygiad gwaith chwarae er mwyn dal gafael ar weithwyr **eraill**
18. hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae i bobl **eraill**

-
19. anrhydeddu cytundebau wedi eu gwneud ag **eraill** a rhoi gwybod iddyn nhw beth sy'n digwydd
 20. rhoi gwybod i **eraill** am unrhyw anawsterau mawr neu os bydd hi'n amhosib anrhydeddu cytundeb
 21. adnabod ac adrodd ynglŷn ag gwrthdaro buddiannau neu unrhyw anghydfod ag **eraill**, yn unol â pholisïau a threfniadau'ch mudiad
 22. cyfeirio **eraill** at wasanaethau, asiantaethau neu weithwyr proffesiynol **eraill** a all fod o ddiddordeb iddyn nhw, yn unol â pholisïau a threfniadau'ch mudiad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gweithio ac ymwneud â phlant a phobl ifanc

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. sut i wrando'n fanwl ac ymateb i gyfathrebu geiriol ac di-eiriau
3. **heriau** cyfathrebu a sut i'w goresgyn
4. y gwahanol **ddulliau cyfathrebu** mae modd eu defnyddio gyda phlant a phobl ifanc
5. sut i ymateb i gwestiynau, syniadau ac awgrymiadau plant a phobl ifanc
6. bod angen i blant a phobl ifanc benderfynu eu hunain gyda phwy maen nhw'n chwarae, a sut i hwyluso hyn
7. fod plant a phobl ifanc yn datblygu gwytnwch drwy dderbyn ac ymdopi â'u cyfyngiadau a'u methiannau, a sut i hwyluso hyn.
8. sut mae modd i bresenoldeb oedolion weithiau lesteirio annibyniaeth plant a phobl ifanc a sut maen nhw'n dod i benderfyniad
9. fod pob plentyn a pherson ifanc yn wahanol
10. fod plant a phobl ifanc yn aml yn gweld y byd mewn ffordd wahanol i oedolion
11. pwysigrwydd peidio â rhagdybio
12. sut i feithrin perthynas gyda phlant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar onestrwydd, parch ac ymddiriedaeth
13. sut i annog amrywiaeth a sicrhau fod pawb yn cael eu cynnwys
14. sut i helpu plant a phobl ifanc i barchu teimladau a safbwyntiau pobl eraill a sut i hwyluso hyn
15. y profiadau, y sefyllfaoedd a'r newidiadau, o fewn a'r tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae, sy'n effeithio ar berthynas ac ymddygiad plant a phobl ifanc
16. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi eu heffeithio gan ymddygiad pobl eraill
17. sut i gefnogi plant i ymdrin eu hunain â gwrthdaro, a pham bod hyn yn bwysig

Gweithio ac ymwneud â phobl eraill

18. pam ei bod hi'n bwysig datblygu perthynas onest, agored a ffyddiog gyda phobl eraill
19. sut i sefydlu a chynnal perthynas waith gyda phobl eraill
20. anghenion gwahanol pobl **eraill** wrth gyfnewid gwybodaeth
21. polisiau, gweithdrefnau a gofynion eich mudiad o ran cyfrinachedd a gwarchod data

22. y mathau o wybodaeth sydd ei hangen i alluogi pobl **eraill** i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc a sut i ddarparu hynny, gan gadw mewn cof lles pennaf y plentyn a / neu'r person ifanc.
23. sut i penderfyniadau a gweithgareddau gyda phobl **eraill** ac ystyried eu **safbwyntiau**
24. swyddogaethau, cyfrifoldebau, diddordebau a phryderon posib pobl **eraill**
25. **materion** sy'n effeithio ar rieni a gofalwyr
26. sut i adnabod anawsterau cyfathrebu gydag **eraill** a strategaethau mae modd eu defnyddio i oresgyn y rhain
27. polisiau a gweithdrefnau eich mudiad mewn perthynas a **materion**, anghydfodau neu gwynion gan bobl **eraill**
28. cadw staff a datblygu polisiau a gweithdrefnau
29. sut i hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae i bobl **eraill**
30. pwysigrwydd anrhydeddu cytundebau gyda phobl **eraill** a thrafod gyda nhw
31. sut a phryd i roi gwybod i bobl **eraill** am unrhyw anawsterau mawr neu achosion lle bydd hi'n amhosib anrhydeddu cytundebau
32. sut a phryd i adrodd am wrthdaro buddiannau ac anghytundebau gydag **eraill**
33. gwasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol **eraill** y gllai pobl eraill eu cael yn ddefnyddiol a phryd i'w cyfeirio atyn nhw
34. eich medrau a'ch cymwyseddau o ran gweithio gyda phlant, pobl ifanc a phobl **eraill** a chyfyngiadau hyn

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Eraill

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a / neu ofalwyr

Gwybodaeth (*dim llai na 3 allan o 5*)

1. ynglŷn â chwarae a gwaith chware
2. ynglŷn â phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc
3. ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael yn y lleoliad gwaith chwarae
4. ynglŷn â gwerthoedd a gweithdrefnau cytunedig
5. ynglŷn â ffyrdd mae modd cynnwys rhieni a gofalwyr yn y lleoliad gwaith chwarae

Safbwyntiau (PC14)

1. blaenoriaethau
2. disgwyliadau
3. agweddau tuag at risgiau posib

Materion (*dim llai na 3 allan o 4*)

1. cymdeithasol
2. diwylliannol
3. addysg
4. pwysau economaidd

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Heriau

1. diwylliannol
2. cymdeithasol
3. corfforol
4. emosiynol
5. datblygol

Ffyrdd o gyfathrebu

1. ieithoedd confensiynol
2. ieithoedd anghonfensiynol
3. cyfathrebu di-eiriau

Materion (KU15)

1. cymdeithasol
2. diwylliannol
3. addysg
4. pwysau economaidd

Eraill

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a / neu ofalwyr

Safbwyntiau

1. blaenoriaethau
2. disgwyliadau
3. agweddau tuag at risgiau posib

Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac yn hynny o beth fe ddylid eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio yr hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i waith chwarae yng ngoleuni gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r safonau yn seiliedig ar yr adnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio sut a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisiau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Gyda gweithwyr chwarae, y broses chwarae sy'n cael blaenoriaeth ac mae gweithwyr chwarae yn gweithredu fel eiriolwyr chwarae wrth ymwneud ag agweddau sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithiwr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac adlewyrchu ar ei brofiadau ei hun.
7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod eu heffaith eu hunain ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r pobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n

caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol gan y Grŵp Craffu. Roedd y grŵp hwn yn gweithredu fel canolwr onest oedd yn goruchwyllo'r ymgynghoriadau lle cafodd y safonau eu llunio.

Geirfa

Man chwarae

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

Lleoliad gwaith chwarae

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

Staff

Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW55

Cyfrannu at ddatblygu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau gyda plant, pobl ifanc ac eraill yn y lleoliad gwaith chwarae



Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAPW33
Galwedigaethau perthnasol	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd
Cyfes/Set	Gwaith Chwarae
Geiriau Allweddol	datblygu; cynnal a chadw; perthynas; plant a phobl ifanc; lleoliad gwaith chwarae